



Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**



Hanfodion cofrestru cyflogwyr

Mae'r canllaw hwn yn cynnwys
gwybodaeth hanfodol am eich rôl ym
mhroses gofrestru Gofal Cymdeithasol
Cymru, ynghyd â phynciau defnyddiol eraill

Hydref 2019



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Cynnwys

Ynglŷn â'r canllaw hwn.....	3
Y Gofrestr o Weithwyr Gofal Cymdeithasol yng Nghymru.....	4
Y Côt Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol.....	5
Y Côt Ymarfer i Gyflogwyr Gofal Cymdeithasol.....	6
Addasrwyddi ymarfer.....	7
Deddfwriaeth bwysig i chi a'ch cyflogeion.....	8
Cofrestru'n ddigidol a GCCarlein.....	10
Cyflogwyr a'r broses gofrestru.....	12
Cwestiynau cyffredin am gofrestru.....	15
Newyddion i gyflogwyr.....	16
Camau cyntaf mewn rheoli i reolwyr gofal cymdeithasol.....	18
Defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle – 'Mwy na geiriau'.....	19
Gofalwn Cymru.....	20
Dolenni defnyddiol.....	21
Ein tîm.....	22

Canllaw ac allwedd i ddefnyddwyr

- Canllaw 'clicio a mynd' yw hwn, sy'n eich galluogi i ddod o hyd i wybodaeth am bynciau penodol yn gyflym ac yn uniongyrchol
- Mae'r dudalen gynnwys yn dangos beth mae pob adran o'r ddogfen yn ei gwmpasu. Cliciwch yr adran sydd ei heisiau arnoch, a byddwch yn mynd yn syth ati
- Trwy gydol y ddogfen, cliciwch ar unrhyw ddolen we i fynd i'r wefan honno. Gallwch glicio'r botwm  unrhyw adeg i ddod yn ôl i'r dudalen hon.



Ynglŷn â'r canllaw hwn

Mae'r canllaw hwn yn ymwneud â'ch rôl fel cyflogwr staff sydd ar y Gofrestr o Weithwyr Gofal Cymdeithasol, neu sy'n gwneud cais i ymuno â hi. Mae'n cynnwys pynciau pwysig ac yn rhoi gwybod i chi lle gallwch ddod o hyd i wybodaeth fanylach.

Rydym wedi ymrwymo i'ch cynorthwyo chi a'ch cyflogeion i ddarparu gwasanaeth proffesiynol o ansawdd uchel. Rydym yn arwain ystod o waith i ddatblygu a chynorthwyo unigolion a'r proffesiwn.

Byddwn yn rhannu gwybodaeth am:

- y gweithlu. Fel rhan o'n rôl, byddwn yn darparu gwybodaeth ychwanegol am y sector, gan gynnwys ystadegau a thueddiadau, y gellir eu defnyddio ar gyfer dysgu a chynllunio'r gweithlu
- unrhyw fforymau, digwyddiadau neu rwydweithiau sy'n berthnasol i chi. Mae'r rhain yn gyfleoedd i drafod datblygiad proffesiynol, rhannu ymarfer da a chyfarfod â phobl broffesiynol eraill
- gyhoeddiadau newydd, fel dogfennau canllawiau ymarfer. Mae'r rhain yn rhoi gwybodaeth fanylach i chi am yr hyn a ddisgwylir gennych chi a'ch cyflogeion.

Mae'r canllaw hwn hefyd yn cyflwyno GCCarlein, sef y porth ar-lein rydym yn ei ddefnyddio i gyfathrebu â chi am eich cyflogeion a'ch sefydliad. Gallwch greu eich cyfrif GCCarlein eich hun os byddwch yn dod yn un o'n llofnodwyr. Gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth am GCCarlein ar dudalen 10. Gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth amdanom ni a'r gwaith rydym yn ei wneud, gan gynnwys canllawiau a fideos, ar ein [gwefan](#).



Y Gofrestr o Weithwyr Gofal Cymdeithasol yng Nghymru

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn cadw cofrestr o'r bobl sydd wedi dangos eu bod yn addas i weithio mewn gofal cymdeithasol yng Nghymru trwy:

- ddilyn y [Côd Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol](#) (y Côd) a'r [canllaw ymarfer](#) ar gyfer eu rôl
- meddu ar y wybodaeth a'r sgiliau priodol (gan gynnwys cymwysterau)
- bod yn gymwys yn gorfforol ac yn feddyliol i ymarfer, yn ogystal â bod â chymhwysedd a chymeriad addas.

Mae gennym fideo ar ein gwefan sy'n esbonio pwy rydym yn eu cofrestru a pham rydym yn eu cofrestru, y gallwch ei wyllo a'i rannu â'ch cyflogeion:



Pwy sydd angen cofrestru i ymarfer yng Nghymru?

- rheolwyr gwasanaethau mabwysiadu
- rheolwyr cartrefi gofal i oedolion
- rheolwyr lleoliadau i oedolion
- rheolwyr gofal cartref
- rheolwyr gwasanaethau maethu
- gweithwyr cymdeithasol cymwysedig sy'n defnyddio'r teitl "gweithiwr cymdeithasol". Mae adran 111 Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 yn nodi bod defnydd y teitl "gweithiwr cymdeithasol" wedi'i warchod
- rheolwyr a gweithwyr gofal preswyl i blant
- rheolwyr canolfannau preswyl i deuluoedd
- myfyrwyr sy'n astudio graddau gwaith cymdeithasol cymeradwy yng Nghymru
- gweithwyr gofal cartref (yn orfodol o Ebrill 2020).

Wedi i unigolyn gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru, bydd yn ymddangos ar y Gofrestr o Weithwyr Gofal Cymdeithasol. Mae hon yn ffordd ddefnyddiol i chi wirio manylion unrhyw weithiwr gofal cymdeithasol rydych yn cydweithio ag ef/hi neu'n ei gyflogi/chyflogi, neu ddarganfod a oes ganddo/ganddi unrhyw wybodaeth addasrwydd i ymarfer yn ei (h)erbyn.


Mae'r Gofrestr yn dangos:

- yr enw llawn/enw y mae'n ei ddefnyddio yn y gwaith – os nad yw'r unigolyn rydych yn chwilio amdano/amdani yn ymddangos ar y rhestr 'Unigolion Cofrestredig', nid yw ar y Gofrestr ar hyn o bryd. Os ydych yn ymwybodol neu'n poeni am rywun sy'n ymarfer mewn rôl y mae angen cofrestru ar ei chyfer, [cysylltwch â'r tîm cofrestru cyn gynted â phosibl](#)
- ei r(h)if cofrestru
- y sir y mae'n gweithio neu'n astudio ynddi
- ei rôl gofrestredig
- ei (d)dyddiad cofrestru
- y cymwysterau sydd ganddo/ganddi sy'n berthnasol i'w rôl
- gwybodaeth am ei (h)addasrwydd i ymarfer, er enghraifft penderfyniadau a chydymffuriad
- os yw unigolyn wedi cael ei dynnu/thynnu oddi ar y Gofrestr oherwydd diffyg addasrwydd i ymarfer.

Y Côt Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol

Mae'r [Côt Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol](#) (y Côt) yn amlinellu'r safonau, ar gyfer pob gweithiwr proffesiynol gofal cymdeithasol a myfyriwr gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae pob unigolyn cofrestredig yn cadarnhau eu bod wedi darllen a deall y Côt fel rhan o'u cais i gofrestru.

Wrth ystyried materion yn ymwneud ag addasrwydd i ymarfer, byddwn yn ymchwilio i unrhyw achosion honedig o dorri'r Côt. Mae copi'u o wahanol fersiynau'r Côt ar gael i'w lawrlwytho, ynghyd ag apiau ategol ar gyfer eich ffôn, ar wefan Gofal Cymdeithasol Cymru: gofalcymdeithasol.cymru/addasrwydd-i-ymarfer/codau-ymarfer-a-chanllawiau



Dod i adnabod y Côt a dangos eich bod yn Gofalu â Balchder

Nod ein hyfforddiant Gofalu â Balchder yw codi ymwybyddiaeth o'r Côt a helpu eich cyflogeion i ymgorffori ei egwyddorion yn y gweithle. Gall rheolwyr ei ddefnyddio i gynorthwyo dysgu staff wrth ymsefydlu, goruchwyllo, mewn cyfarfodydd tîm neu sesiynau hyfforddiant.

Mae'r deunyddiau hyfforddi, y prawf a'r adnoddau i gyflogwyr ar gael yn rhad ac am ddim yn ein [Man Dysgu](#).

"Rwy'n rheolwr cofrestredig a oedd yn credu ei fod yn ymarfer gorau i fynd trwy'r fideo, y llyfr gwaith a'r asesiad fy hun cyn i mi gyflwyno'r Man Dysgu a'r asesiad Gofalu â Balchder i'm gweithlu. Roedd y safle'n hawdd iawn i'w ddefnyddio ac roedd y wybodaeth a'r asesiad yn ddefnyddiol iawn."

Adborth gan Claire Scanlan, rheolwr cofrestredig

Y Côt Ymarfer i Gyflogwyr Gofal Cymdeithasol

Mae'r Côt Ymarfer i Gyflogwyr Gofal Cymdeithasol (y Côt i Gyflogwyr) yn pennu'r safonau a ddisgwylir gan gyflogwyr i sicrhau gweithlu diogel, medrus sy'n cael cymorth priodol.

Mae'r Côt i Gyflogwyr yn cynnwys pum adran:

Adran 1: Gwneud yn siŵr fod pobl yn addas i ymuno â'r gweithlu gofal cymdeithasol ac yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau

Adran 2: Mae polisiâu, systemau ac arferion ar waith i alluogi gweithwyr gofal cymdeithasol i fodloni eu Côt Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol

Adran 3: Darparu a chefnogi cyfleoedd dysgu a datblygu i alluogi gweithwyr gofal cymdeithasol i ddatblygu eu gwybodaeth a'u medrau

Adran 4: Mae polisiâu a systemau ar waith sy'n amddiffyn pobl rhag sefyllfaoedd, ymddygiad ac ymarfer niweidiol neu beryglus

Adran 5: Hybu'r Côt Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol a chydweithredu ag achosion Gofal Cymdeithasol Cymru

Gall [Arolygiaeth Gofal Cymru](#) (AGC) weithredu os bydd cyflogwyr yn methu cydymffurfio â'r Côt.

Mae fersiwn lawn o'r Côt i Gyflogwyr ar gael i'w lawrlwytho ar ein gwefan:

gofalcymdeithasol.cymru/addasrwydd-i-ymarfer/codau-ymarfer-a-chanllawiau



Canllawiau ymarfer

Dylai pob unigolyn cofrestredig sicrhau eu bod yn gyfarwydd â'r canllawiau ymarfer sy'n berthnasol i'w rôl. Mae canllawiau ymarfer ar gyfer pob rôl wedi'u cyhoeddi ar ein gwefan ac maent ar gael i unigolion cofrestredig yn yr adran adnoddau cofrestru yn eu cyfrif [GCCarlein](#).

Offer ymarferol yw'r canllawiau ymarfer, sy'n adeiladu ar y Côt Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol. Eu nod yw disgrifio'r hyn a ddisgwylir gan bob rôl, a chynorthwyo gweithwyr a rheolwyr i ddarparu gofal a chymorth o ansawdd uchel. Byddwn yn ystyried y safonau sydd wedi'u hamlinellu yn y Côt a'r canllawiau ymarfer wrth i ni ystyried honiadau o ddiffyg addasrwydd i ymarfer. Gellir defnyddio'r canllawiau ymarfer i ategu ac amlygu methiant honedig i ddilyn y Côt.

Rydym hefyd yn cyhoeddi canllawiau eraill i weithwyr cofrestredig sy'n esbonio pynciau allweddol. I weld ein canllawiau cyfredol, ewch i'n gwefan:

gofalcymdeithasol.cymru/addasrwydd-i-ymarfer/codau-ymarfer-a-chanllawiau

Y Rheolau Cofrestru

Mae ein rheolau'n cael eu cymeradwyo'n ffurfiol gan Lywodraeth Cymru ac maent yn sail gyfreithiol ar gyfer cofrestru'r gweithlu gofal cymdeithasol. Gellir eu gweld ar ein gwefan:

gofalcymdeithasol.cymru/cofrestru/beth-yw-cofrestru

Addasrwydd i ymarfer

Addasrwydd i ymarfer – beth mae'n ei olygu?

Mae addasrwydd i ymarfer yn golygu bod gan weithiwr y sgiliau, y wybodaeth, y cymhwysedd a'r cymeriad priodol sydd eu hangen i ymarfer yn y sector gofal cymdeithasol.

Byddwn yn ymchwilio i atgyfeiriadau pan fydd amheuaeth ynghylch addasrwydd unigolyn i ymarfer. Gallai hyn gynnwys pryderon bod ymddygiad unigolyn cofrestredig yn disgyn islaw'r disgwyl, neu fod unigolyn cofrestredig yn dangos diffyg gwybodaeth, sgil neu farn. Gallai gynnwys materion sy'n digwydd y tu allan i'r gweithle hefyd.

Fel cyflogwr, mae gennych rôl allweddol mewn asesu, i ddechrau, ac ymdrin ag unrhyw honiad(au) yn ymwneud ag addasrwydd cyflogai i ymarfer.

Dylech gyfeirio eich cyflogai atom ar ddechrau eich prosesau, os:

- yw eich cyflogai wedi cael ei (h)atal rhag gweithio dros dro neu ei (d)diswyddo
- yw eich cyflogai wedi ymddiswyddo neu adael cyn i chi allu cwblhau eich proses, a fyddai wedi arwain at ddiswyddo
- yw'n destun ymchwiliad gan yr heddlu neu ymchwiliad diogelu.

Os nad yw eich proses ddisgyblu'n disgyn i un o'r categorïau uchod, dylech atgyfeirio ar ddiwedd eich proses ddisgyblu neu allu.

Gallwch gysylltu â ni yn aiy@gofalcymdeithasol.cymru os ydych yn ansicr ynghylch p'un a ddylech wneud atgyfeiriad.

Pa wybodaeth sydd ar gael ar ein gwefan am addasrwydd i ymarfer?

Mae ein gwefan yn cynnwys mwy o wybodaeth am addasrwydd i ymarfer, gan gynnwys sut i atgyfeirio i'r tîm addasrwydd i ymarfer a gwybodaeth i unigolion cofrestredig pan fyddant wedi cael eu hatgyfeirio.

Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am rybuddion, ymgymeriadau, symudiadau trwy gytundeb â'n swyddogion addasrwydd i ymarfer, cosbau a chanlyniadau ein gwrandawiadau addasrwydd i ymarfer ar ein gwefan neu pan fyddwch yn chwilio'r Gofrestr.

Rydym yn cyhoeddi manylion am ganlyniad gwrandawiadau cyhoeddus ar ein gwefan am gyfnod penodedig o dan canlyniadau gwrandawiadau. Ar ôl i warediad ddod i ben, caiff y rhesymau eu dileu oddi ar y wefan, ond bydd y penderfyniad yn parhau am gyfnod amhenodol.

Gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth am addasrwydd i ymarfer yn gofalcymdeithasol.cymru/addasrwydd-i-ymarfer

Gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth am wrandawiadau, gan gynnwys gwrandawiadau sydd i ddod a chanlyniadau gwrandawiadau yn gofalcymdeithasol.cymru/gwrandawiadau. Gallwch chwilio'r Gofrestr yn scwonline.wales/cy/search-the-register/.

Deddfwriaeth bwysig i chi a'ch cyflogeion

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Daeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i rym ar 6 Ebrill 2016. Mae'r Ddeddf yn darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer gwella llesiant pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt, a gofawyr y mae angen cymorth arnynt. Mae'r Deddf yn:

- sicrhau bod pobl a'u hanghenion yn ganolog i'w gofal, gan roi mwy o lais a rheolaeth iddynt dros y gofal a gânt
- annog pobl i gael cyngor a chymorth yn gynharach i gynnal ansawdd bywyd da a lleihau neu ohirio'r angen am ofal a chymorth tymor hwy
- cynorthwyo pobl er mwyn iddynt allu cyflawni llesiant ym mhob agwedd ar eu bywydau
- cynnwys pobl mewn cynllunio a darparu'r cymorth a'r gwasanaethau a gânt, gan gydnabod y wybodaeth a'r arbenigedd y gallant eu cynnig.

Fel rhan o'r fenter hon, rydym wedi datblygu [Hyb Gwybodaeth a Dysgu](#). Siop-un-stop yw hwn ar gyfer yr ystod eang o ddeunyddiau dysgu a luniwyd i helpu gweithwyr proffesiynol yn y sectorau gofal cymdeithasol, iechyd a gwirfoddol i roi'r ddeddfwriaeth wrth wraidd eu gwaith o ddydd i ddydd.

Home - BBC News

Deddfwriaeth gofal cymdeithasol yng Nghymru

Hyb Gwybodaeth a Dysgu

Amdanom Gwasanaethau cymdeithasol a llesiant Rheoleiddio ac arolygu Adnoddau dysgu Digwyddiadau Newyddion

Ein nod yw i sicrhau bod gweithwyr proffesiynol yn y meysydd gofal cymdeithasol ac iechyd yn hyderus ac yn meddu ar y wybodaeth i weithredu'r deddfwriaeth ac egwyddorion y Ddeddfau.

Newyddion Llywodraeth Cymru
Datganiad Ysgrifenedig: Ymgynghoriad ar elfennau'r gweithlu yng ngham 2 o roi Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ar waith
12/05/19

Newyddion Llywodraeth Cymru
Datganiad Ysgrifenedig: Diweddariad ar weithredu Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016
01/05/19

Beth yw'r Hyb?
Mae'r Hyb Gwybodaeth a Dysgu yn siop un stop ar gyfer gwybodaeth ac adnoddau am ddeddfwriaeth gofal cymdeithasol Cymru.
> Amdanom

Gwerthusiad 2016-17
Gwerthusiad annibynnol o ail flwyddyn y rhaglen hyfforddiant cenedlaethol ar gyfer Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 wedi cael ei lunio gan ICF Consulting Services.
> Darllen y gwerthusiad

Adnoddau dysgu
Mae'r Hub yn cynnwys cyfoeth o wybodaeth a deunyddiau i gefnogi dysgu ar y Deddfau. Ceir adnoddau eu hychwanegu a'u diweddaru'n rheolaidd.
> Adnoddau dysgu

Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

Daeth Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 yn gyfraith ar 18 Ionawr 2016, a daeth i rym yng Nghymru o fis Ebrill 2017.

Mae'r Ddeddf yn adeiladu ar y sylfeini a ddarparwyd gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ac mae'n canolbwyntio ar effaith ac ansawdd y gwasanaethau y mae pobl yn eu derbyn.

Rheoliadau gwasanaeth

Fel cyflogwr gofal cymdeithasol, mae'n bwysig eich bod yn gyfarwydd â [Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig \(Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol\) \(Cymru\) 2017](#).

Dywed y rheoliadau, a orfodir gan Arolygiaeth Gofal Cymru, ei bod yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau fod â'r canlynol ar waith:



- polisïau a gweithdrefnau sylfaenol ar gyfer recriwtio
- arferion trylwyr ar gyfer recriwtio ac archwilio cefndir staff
- strwythur rheoli a staffio sy'n ategu'r datganiad o ddiben ac sy'n berthnasol i anghenion unigolion
- strwythur rheoli, systemau a phrosesau ar gyfer sefydlu, goruchwyliaeth barhaus, hyfforddiant a datblygiad staff.

Rhaid i'r darparwr gwasanaethau sicrhau bod nifer ddigonol o staff â chymwysterau, hyfforddiant, sgiliau, cymwyseddau a phrofiad addas wedi'u cyflogi i weithio yn y gwasanaeth. Mae Rheoliadau 35-38 yn mynd i'r afael â'r rhain yn fanylach, gan gynnwys addasrwydd ar gyfer y rôl, sefydlu, darparu gwybodaeth a chydymffurfio â'r Côd Ymarfer.


Cofrestru'n ddigidol a GCCarlein

Beth yw GCCarlein?

Porth ar-lein diogel yw GCCarlein, yr ydym yn gofyn i chi ei ddefnyddio i gyfathrebu â ni. Dyma lle bydd eich cyflogeion yn gwneud cais ac yn rheoli eu cofrestriad hefyd. Gallwch fynd ato ar gyfrifiadur, llechen gyfrifiadurol neu ffôn clyfar. Mae'n cael ei ddefnyddio gan ymgeiswyr, unigolion cofrestredig, llofnodwyr ac Arolygwyr AGC.

Mae GCCarlein yn hollol gydnaws â ffonau symudol, sy'n golygu y gallwch ei ddefnyddio i ddiweddarau eich manylion wrth fynd ar ffôn neu lechen.

Rydym wedi ceisio ei gwneud mor hawdd â phosibl i chi a'ch cyflogeion fynd at eich cyfrifon mewn unrhyw le ar unrhyw adeg. Er enghraifft, os bydd angen i un o'ch cyflogeion anfon dogfen atom ar ôl i chi ei llofnodi a'i dilysu, gall lanlwytho llun ohono i'w gyfrif/chyfrif GCCarlein. Neu os bydd angen i un o'ch cyflogeion ychwanegu hyfforddiant neu ddysgu at ei gofnod/chofnod hyfforddiant a dysgu ôl-gofrestru, gall fewngofnodi a'i ddiweddarau unrhyw adeg.



Cynorthwyo eich staff i ddefnyddio GCCarlein

Dylai'ch cyflogeion ddefnyddio GCCarlein i:

- wneud cais i gofrestru
- diweddarau eu manylion cyswllt – yn enwedig eu cyfeiriad e-bost, gan mai dyma'r ffordd y byddwn yn cysylltu â nhw
- talu eu ffioedd cofrestru
- cadw cofnod parhaus o'u hyfforddiant a dysgu ôl-gofrestru
- adnewyddu eu cofrestriad bob tair blynedd trwy lenwi cais adnewyddu a chyflwyno cofnod o 90 awr o hyfforddiant a dysgu ôl-gofrestru.

Mae gennym ganllawiau a fideos sydd ar gael i'ch cynorthwyo i helpu eich cyflogeion i ddefnyddio GCCarlein yn ystod pob cam o'u taith gofrestru gyda ni. Mae'r rhain i'w gweld yn adrannau help GCCarlein neu ar ein [sianel YouTube](#).

Gallwch fynd at GCCarlein trwy ein gwefan trwy glicio'r ddelwedd isod, neu ewch i scwonline.wales/cy/



Mewngofnodi i GCCarlein

Gwasanaethau arlein ar gyfer ymgeiswyr, unigolion cofrestredig, llofnodwyr, Arolygwyr AGC ac aelodau'r Bwrdd.

Yr ap Cofrestru

Rydym wedi lansio ein ap Cofrestru am ddim, sy'n golygu y gallwch chi a'ch cyflogeion fanteisio ar wybodaeth am y meysydd canlynol ar eich dyfeisiau symudol pan na fyddwch ar-lein:


- cymwysterau
- ffioedd
- pwy sydd angen cofrestru
- sut i wneud cais ac adnewyddu eich cofrestriad.

Gallwch lawrlwytho'r ap symudol o Google Play neu Apple Store trwy glicio un o'r dolenni isod (rhaid eich bod yn defnyddio eich ffôn symudol neu lechen gyfrifiadurol i osod yr ap):

Google Play: play.google.com/store/apps/details?id=wales.socialcare.Registration

Apple: itunes.apple.com/ao/app/registration-cofrestru/id1416711119?mt=8

Byddwn yn diweddarau'r ap yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod gennych y wybodaeth ddiweddaraf.



Fideos

Rydym wedi llunio cyfres o fideos i chi eu defnyddio a'u rhannu â'ch cyflogeion.

Mae'r rhain yn cynnwys astudiaethau achos a chanllawiau a ddatblygwyd gennym i ategu a symleiddio'r broses gofrestru.

Mae'r rhain ar gael trwy ein gwefan neu sianel YouTube benodedig Gofal Cymdeithasol Cymru: youtube.com/channel/UCmTDZ3M2NONS_KLq_DOWj_A

Cyflogwyr a'r broses gofrestru

Rydym yn dibynnu ar gyflogwyr i sicrhau bod ymgeiswyr ac unigolion cofrestredig yn addas i ymarfer yng Nghymru. Er mwyn sicrhau bod gan bob sefydliad yng Nghymru unigolyn addas i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni, rydym yn gwahodd aelodau staff uwch neu aelodau staff priodol eraill i fod yn llofnodwr Gofal Cymdeithasol Cymru.

Beth yw llofnodwr?

Mae cyflogwyr yn enwebu pobl briodol i fod yn llofnodwyr. Dylai llofnodwyr fod yn bobl sy'n cynrychioli eich sefydliad. Nhw yw ein prif gyswllt a byddant yn ein cynorthwyo â nifer o elfennau o'r broses gofrestru.

Mae dau fath o lofnodwr – llofnodwyr arweiniol a llofnodwyr ychwanegol.

Llofnodwyr arweiniol

Mae angen llofnodwr arweiniol ar bob sefydliad. Dylai fod yn rhywun mewn rôl uwch sydd â mynediad at gofnodion adnoddau dynol a dylai allu rhoi gwybod i ni am unrhyw faterion yn ymwneud ag addasrwydd i ymarfer. Rydym yn disgwyl i'r llofnodwr arweiniol ymateb i'n hymholiadau drwy'r e bost a thros y ffôn, mynd at ei gyfrif/chyfrif ar-lein a'i ddiweddarau, cwblhau camau gweithredu gofynnol fel ardystio ffurflenni, a chadarnhau gwybodaeth am bobl sy'n ymuno ac yn ymadael â'r Gofrestr.

- Bydd llofnodwyr arweiniol yn gallu mynd at adran cyflogwyr GCCarlein, lle gallant:
 - weld y wybodaeth sydd gennym am eu sefydliad
 - diweddarau gwybodaeth am eu sefydliadau, fel cyfeiriad a manylion cyswllt y gweithle
 - gweld gwybodaeth am yr holl ardystiadau sy'n aros ar gyfer eu sefydliad, a'u cwblhau
 - gweld ac allforio rhestr o'r bobl sydd wedi'u cofrestru yn eu sefydliad
 - rhoi gwybod i ni am newidiadau neu wallau yn y rhestrau o bobl rydym wedi'u cofrestru yn eu sefydliad
 - rhoi gwybod i ni am newidiadau i'r llofnodwyr eraill sydd wedi'u rhestru ar gyfer y sefydliad – gan gynnwys os nad ydynt yn gweithio yn y sefydliad mwyach
 - enwebu pobl i fod yn llofnodwyr ychwanegol i'w cynorthwyo yn eu gwaith gyda ni.

Llofnodwyr ychwanegol

- Pan fydd gan sefydliad lofnodwr arweiniol, gall yr unigolyn hwn ddewis enwebu pobl ychwanegol i gydweithio â ni, rydym yn eu galw'n llofnodwyr ychwanegol. Dylai llofnodwyr ychwanegol gael eu henwebu gan y llofnodwr arweiniol ar gyfer eu sefydliad. Mae angen i'r llofnodwr ychwanegol fod yn rhywun sy'n gallu gwirio gwybodaeth, er enghraifft rheolwyr tîm.
- Gall llofnodwyr ychwanegol weld a chwblhau ardystiadau i bobl sydd wedi'u dewis yn benodol yn eu ceisiadau neu'r broses adnewyddu yn unig (gall llofnodwyr arweiniol weld pob ardystiad sy'n aros ar gyfer eu sefydliad).



Pam y mae arnom angen i chi fod yn llofnodwyr a beth allwn ni ei ofyn i chi

Mae rhai o'r tasgau y mae angen i lofnodwyr eu cwblhau fel a ganlyn:

- gwirio dogfennau, fel hunaniaeth neu dystysgrifau cymwysterau, pan fydd pobl yn gwneud cais i gofrestru neu adnewyddu eu cofrestriad. I wirio dogfen, bydd angen i chi weld y ddogfen wreiddiol, gwneud copi ohoni, yna ysgrifennu eich enw, llofnod a'r dyddiad ar y copi yn cadarnhau ei fod yn gopi cywir o'r ddogfen wreiddiol. Yna, dylai'r unigolyn cofrestredig/unigolyn sy'n gwneud cais lanlwytho'r copi wedi'i wirio i'w gyfrif/chyfrif CGCarleiri ei hun.
- ardystio ceisiadau. I ardystio cais, rhaid i lofnodwr wirio bod yr holl wybodaeth y mae'r unigolyn wedi'i rhoi i ni yn gywir, hyd eithaf eu gwybodaeth. I gwblhau ardystiad, gofynnir i lofnodwyr fewngofnodi i'w cyfrif GCCarleiri ac ateb cyfres o gwestiynau. Rhaid i lofnodwyr ateb yr holl gwestiynau cyn y bydd ein tîm cofrestru yn dechrau prosesu'r cais neu'r adnewyddiad
- rhannu gwybodaeth â ni. Bydd adegau pan fyddwn yn anfon negeseuon e-bost atoch yn gofyn am fwy o wybodaeth neu gadarnhad am unigolyn cofrestredig neu ymgeisydd
- rhoi gwybod i ni am unrhyw fater yn ymwneud ag addasrwydd i ymarfer
- cadarnhau hyfforddiant a dysgu ôl-gofrestru pobl. Mae'n ofynnol i bob unigolyn cofrestredig gwblhau 90 awr ym mhob cyfnod cofrestru o dair blynedd. Fel eu cyflogwr, efallai y bydd yn ofynnol i chi gadarnhau bod cofnodion hyfforddiant a dysgu yn gyflawn/gywir
- cadarnhau nad yw unigolyn cofrestredig, sy'n cael ei dynnu/thynnu oddi ar y Gofrestr ac sydd wedi'i gyflogi/chyflogi gan eich sefydliad yn ystod y 12 mis diwethaf, yn destun unrhyw bryderon disgyblu neu addasrwydd i ymarfer.

Gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth am Wirio a Chymeradwyo yn ein canllaw gwirio a chymeradwyo sydd ar gael i'w lawrlwytho.

Gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth am hyfforddiant a dysgu ôl-gofrestru yn ein canllaw 'Sut i fodloni gofynion hyfforddiant a dysgu ôl-gofrestru'.

Sut i ddod yn llofnodwr arweiniol neu'n llofnodwr ychwanegol

I fod yn llofnodwr, byddwn yn gofyn i chi lenwi ffurflen llofnodwr. Mae ffurflenni ar wahân ar gyfer llofnodwyr arweiniol a llofnodwyr ychwanegol. I ofyn am ffurflen, anfonwch neges e-bost at llofnodwyr@gofalcymdeithasol.cymru

Wedi i ni dderbyn eich ffurflen wedi'i llenwi, byddwn yn ychwanegu eich manylion at ein system ac yn anfon neges e-bost atoch yn esbonio sut i greu eich cyfrif GCCarleiri eich hun, y byddwn wedi'i gysylltu â'ch sefydliad ymlaen llaw. Os oes gennych gyfrif GCCarleiri eisoes fel unigolyn cofrestredig, wedi i ni ychwanegu eich manylion fel llofnodwr, bydd cyfres o opsiynau newydd yn ymddangos pan fyddwch yn mewngofnodi i'ch cyfrif.

Eich rôl mewn hyfforddiant a dysgu ôl-gofrestru

Mae angen i unigolion cofrestredig ddangos eu bod wedi cymryd cyfrifoldeb dros gynnal a datblygu eu gwybodaeth a sgiliau trwy gwblhau hyfforddiant a dysgu parhaus, ac maent yn gwneud hyn drwy gwblhau hyfforddiant a dysgu ôl-gofrestru. Rhaid i bob unigolyn cofrestredig gyflwyno cofnod o 90 awr o leiaf yn ystod pob cyfnod cofrestru o dair blynedd. Dylai'r unigolyn cofrestredig gadw'r cofnod yn ei gyfrif/chyfrif GCCarlein a gellir ei ychwanegu ar unrhyw adeg ar ôl cofrestru. Rhaid i bob cofnod sy'n cael ei ychwanegu gynnwys pa bryd y cwblhawyd yr hyfforddiant a dysgu ôl-gofrestru, ei hyd a sut y cyfrannodd at ymarfer yr unigolyn.

Dylai unigolion cofrestredig drafod eu hyfforddiant a dysgu ôl-gofrestru â chi fel eu cyflogwr. Mae sampl o'r Gofrestr yn cael ei dewis i gyflwyno rhagor o wybodaeth am hyfforddiant a dysgu ôl-gofrestru fel rhan o archwiliad blynyddol. Os caiff un o'ch cyflogeion ei (d)dewis yn yr archwiliad, bydd yn cael ei hysbysu a bydd rhagor o gwestiynau i chi eu hateb fel rhan o ardystio ei ffurflen.

Eich rôl pan fydd un o'ch cyflogeion yn gadael y Gofrestr

Pan nad yw pobl gofrestredig yn gweithio yn y sector mwyach, rydym yn gofyn iddynt dynnu eu hunain oddi ar y Gofrestr yn wirfoddol. Rydym hefyd yn darfod pobl, gan eu tynnu oddi ar y Gofrestr os na fyddant yn adnewyddu eu cofrestriad. Fel rhan o'r broses dynnu, byddwn yn cysylltu â chyflogwyr i gadarnhau nad oes unrhyw reswm pam na ellir tynnu'r unigolyn oddi ar y Gofrestr yn ddiogel.

Byddwn yn anfon neges e-bost at un o lofnodwyr eich sefydliad pan fyddwn am dynnu rhywun oddi ar y Gofrestr sy'n cael ei gyflogi/chyflogi gan eich sefydliad neu sydd wedi'i gyflogi/chyflogi gennych yn ystod y 12 mis diwethaf. Byddwn yn gofyn i chi fewngofnodi i'ch cyfrif GCCarlein ac ateb cyfres o gwestiynau i gadarnhau nad oes unrhyw reswm pam na ellir tynnu'r unigolyn oddi ar y Gofrestr yn ddiogel, hyd eithaf eich gwybodaeth.

Gallwch weld rhestr o'ch cyflogeion yn eich cyfrif GCCarlein. Os byddwch yn gweld rhywun ar y rhestr nad yw'n gweithio â chi mwyach, rhowch wybod i ni trwy anfon neges e-bost at ymholiadau@gofalcymdeithasol.cymru.

Cwestiynau cyffredin am gofrestru

1. Pam nad yw fy nghyflogai wedi'i gofrestru/chofrestru / pam y mae'r cofrestriad wedi dod i ben?

Er ein bod yn gwneud pob ymdrech i adnewyddu a chofrestru ceisiadau, rydym yn dibynnu ar ymgeiswyr a chyflogwyr i ymateb i'n ceisiadau am wybodaeth ychwanegol yn brydlon. Bydd cais anghyflawn yn arwain at wrthod cofrestru unigolyn. Os ydych yn ardystio cais, byddwn yn rhoi gwybod i chi drwy'r e-bost pan fu cais yn aflwyddiannus. Byddwn hefyd yn rhoi gwybod i lofnodwyr pan fydd cofrestriad unigolyn cofrestredig yn dod i ben. Os nad ydych yn siŵr ynghylch cofrestriad rhywun, dylech wirio'r Gofrestr neu eich cyfrif GCCarlein.

2. Nid yw rhywun sy'n gweithio i mi ar fy rhestr cyflogeion yn GCCarlein? Beth ddylwn ei wneud?

Mae'n bwysig eich bod yn gwirio bod y rhestr hon yn gyfredol. Efallai y bydd achosion pan fydd pobl yn newid swyddi ac nad ydynt wedi rhoi gwybod i ni am hynny, neu pan fydd pobl wedi gwneud camgymeriad wrth roi gwybod i ni am eu cyflogaeth. Efallai na fydd un o'ch cyflogeion wedi'i gofrestru/chofrestru a bod angen iddo/iddi wneud hynny. Pan fyddwch yn gweld manylion sy'n anghywir neu'n aneglur, dylech eu diweddarau yn GCCarlein neu roi gwybod i ni trwy anfon neges e-bost at ymholiadau@gofalcymdeithasol.cymru.

3. Sut ydw i'n gwybod pan fydd rhywun yn aros i mi ardystio cais?

Byddwn yn anfon neges e-bost atoch bob saith niwrnod i'ch atgoffa bod ardystiad yn aros amdanoch. Pan fyddwch yn mewngofnodi i'ch cyfrif GCCarlein, byddwch yn gallu gweld unrhyw ardystiad sy'n aros amdanoch ar eich tudalen 'Fy Hysbysiadau' neu dan 'Fy Sefydliad'. Rydym wedi cynhyrchu fideo arweiniad sydd ar gael ar ein tudalennau cymorth GCCarlein i'ch helpu i gwblhau ardystiad.

4. Pam ydych chi'n anfon neges e-bost ataf am fwy o wybodaeth am un o'm cyflogeion?

Ar adegau, efallai y byddwn yn cysylltu â chi i geisio ein helpu i gadarnhau rhywfaint o'r wybodaeth rydych chi neu un o'ch cyflogeion wedi'i rhoi i ni. Gallai enghreifftiau o hyn gynnwys os gwnaethoch chi roi dyddiadau dechrau cyflogaeth gwahanol neu ddyddiadau DBS gwahanol i ni, neu os oes angen mwy o wybodaeth arnom ynghylch pam y bu rhywun yn ymarfer heb gofrestru wrth gael ei gyflogi/chyflogi gennych chi. Gallai ein ceisiadau am wybodaeth olygu'r gwahaniaeth rhwng cofrestru rhywun neu beidio, felly dylech geisio ymateb i'n ceisiadau mor gyflym a chywir ag y gallwch, lle bo hynny'n bosibl, er mwyn osgoi unrhyw oedi.

5. Sut ydw i'n gwybod pa bryd y mae angen adnewyddu cofrestriad un o'm cyflogeion?

Gallwch weld manylion cofrestru unrhyw un o'ch cyflogeion, gan gynnwys eu dyddiadau adnewyddu, yn eich cyfrif GCCarlein. Wedi i chi fewngofnodi, ewch i 'Fy Sefydliad' ar y ddewislen a chliciwch enw eich sefydliad i weld rhestr o wybodaeth a chmau gweithredu. Trwy ddewis unigolion cofrestredig ar y rhestr hon, byddwch yn gweld gwybodaeth mewn grid am bob unigolyn cofrestredig yn eich sefydliad, gan gynnwys eu dyddiad adnewyddu nesaf.

6. Rydw i eisiau mewngofnodi i GCCarlein, ond nid wyf yn gallu cofio fy nghyfrinair

Rydym yn gwybod y gall fod yn anodd cofio cyfrinair, felly rydym wedi ychwanegu opsiwn 'wedi anghofio eich cyfrinair' ar sgrin fewngofnodi [GCCarlein](#). I gael proc cof, bydd angen i chi roi eich cyfeiriad e bost. Mae angen i hwn fod y cyfeiriad e-bost y gwnaethoch ei roi i ni pan wnaethoch gofrestru i fod yn llofnodwr. Wedi i chi lenwi'r sgrin hon, byddwch yn cael neges e-bost â dolen a fydd yn caniatáu i chi ailosod y cyfrinair ar gyfer eich cyfrif.



Newyddion i gyflogwyr

Grwpiau newydd sy'n ymuno â'r Gofrestr

Cofrestru gweithwyr gofal cartref

Erbyn hyn, mae'r Gofrestr ar agor i weithwyr gofal cartref ac rydym yn mynd ati i annog pobl yn weithredol i wneud cais i gofrestru nawr cyn y dyddiad cofrestru gorfodol, sef 1 Ebrill 2020. Erbyn y dyddiad hwnnw, bydd yn ofyniad cyfreithiol i bob gweithiwr gofal cartref gofrestru â ni i allu gweithio yng Nghymru.

Pwy yw'r gweithwyr gofal cartref y mae angen iddynt ymuno â'r Gofrestr?

Gweithwyr gofal cartref yw gweithwyr sy'n cael eu cyflogi gan wasanaeth cymorth cartref i ddarparu gofal a chymorth. Efallai nad 'gweithiwr gofal cartref' yw teitl eu swydd, ond os yw gweithiwr yn darparu gofal a chymorth i bobl yn eu cartrefi eu hunain a bod y man gwaith wedi'i gofrestru ag AGC, bydd angen iddo/iddi gofrestru â ni.

Gofynion ar gyfer cofrestru'n weithiwr gofal cartref:

Bydd angen i'ch cyflogai fod wedi cwblhau un o'r tri llwybr cofrestru derbyniol er mwyn gallu cofrestru'n weithiwr gofal cartref. Mae'r tri llwybr fel a ganlyn:

- cwblhau cymhwyster Lefel 2 neu 3 mewn ieuchyd a gofal cymdeithadol neu gymhwyster cyfwerth – gallwch ddod o hyd i fanylion am y cymwysterau sy'n cael eu derbyn ar ein [gwefan](#)
- gwneud cais i gofrestru â phrofiad. I weithwyr a fu'n gweithio mewn rôl gofal cymdeithasol am dair o'r pum mlynedd diwethaf, ond nad oes ganddynt gymhwyster cydnabyddedig. Bydd rheolwyr yn asesu gweithwyr yn erbyn y cymwyseddau gofynnol ac yn darparu datganiad wedi'i lofnodi i gadarnhau eu cymhwysedd fel ymarferydd cyfreithlon, diogel ac effeithiol (ar gael hyd at 31 Mawrth 2020 yn unig)
- cwblhau'r [wobr Egwyddorion a Gwerthoedd](#) ar-lein. Yna, bydd angen iddynt gwblhau'r cymhwyster gofynnol cyn adnewyddu eu cofrestriad.

Gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth am y tri llwybr hyn ar ein [gwefan](#).

Sut gallaf gynorthwyo fy nghyflogeion i gofrestru?

Mae'r cais i ddod yn weithiwr gofal cartref cofrestredig ar gael ar GCCarlein. Bydd angen i'r unigolyn sy'n gwneud cais greu ei gyfrif/cyfrif ei hun gan ddefnyddio cyfeiriad e-bost unigryw.

Cyn llenwi'r cais, rydym yn argymhell bod ganddynt y manylion canlynol wrth law:

- eu rhif yswiriant gwladol
- manylion am eu swydd (cyfeiriad y sefydliad, teitl y swydd a'u dyddiad dechrau)
- eu hanes cyflogaeth am y pum mlynedd diwethaf
- dyddiad eu DBS diweddaraf (a rhif diweddarau DBS, os yw'n berthnasol)
- eu manylion banc i drefnu Debyd Uniongyrchol i dalu eu ffioedd.

Os oes gan yr unigolyn sy'n gwneud cais y wybodaeth wrth law, gellir cwblhau'r cais mewn llai na 15 munud.

Fel cyflogwr ymgeisydd, rydym yn disgwyl i chi gymeradwyo'r cais a gwirio unrhyw ddogfennau sydd eu hangen cyn gynted â phosibl wedi i'r cais gael ei gyflwyno, er mwyn i ni allu dechrau prosesu'r ffurflen.

Mae'n bwysig atgoffa ymgeiswyr y byddwn yn ceisio cysylltu â nhw drwy'r e-bost bob tro ar gyfer unrhyw wybodaeth sydd ei hangen arnom. Os na fyddwn yn cael ateb, gall hyn arwain at gau ceisiadau a phheidio â'u cofrestru.

Cysylltu â ni am gymorth wrth gofrestru eich gweithlu gofal cartref

Ar hyn o bryd, rydym yn cynnig cymorth i sefydliadau sydd â grwpiau mawr o weithwyr gofal cartref sy'n ceisio cofrestru. Gall hyn amrywio o ddarparu cymorth penodedig dros y ffôn i grwpiau bach, i rai o'n staff yn ymweld â chi i'ch helpu i gofrestru grwpiau mwy. Os hoffech gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â'n tîm ymholiadau yn enquiries@socialcare.wales.

Mae gennym dîm ymholiadau penodedig sydd ar gael rhwng 9am a 5pm o ddydd Llun i ddydd Gwener i'ch cynorthwyo chi a'ch cyflogeion â'u taith gofrestru. Gallwch gysylltu â nhw drwy anfon neges e-bost at ymholiadau@gofalcymdeithasol.cymru neu drwy ffonio 02920 780646.



Camau cyntaf mewn rheoli i reolwyr gofal cymdeithasol

Adnodd rhyngweithiol yw *Camau cyntaf mewn rheoli* i helpu rheolwyr sydd newydd eu penodi i bontio'n rhwydd i'w rôl newydd.

Mae'r adnodd yn ymdrin â thair elfen allweddol o'r rôl arwain a rheoli:

- rheoli chi'ch hun
- arwain a rheoli tîm
- arwain a rheoli gwasanaeth.

Mae hefyd yn darparu fframwaith i reolwyr a chyflogwyr strwythuro cyfnod ymsefydlu a chynllunio ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus.

Mae *Camau cyntaf mewn rheoli* yn cynnwys cyfuniad o arweiniad ymarferol a dolenni i adnoddau eraill, a hefyd yn ceisio helpu rheolwyr i ddatblygu'n arweinwyr gofal.

Am fwy o wybodaeth am 'Camau cyntaf mewn rheoli', ewch i gofalcymdeithasol.cymru/dysgu-a-datblygu/camau-cyntaf-mewn-rheoli



Defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle – Mwy na geiriau

Mwy na geiriau yw fframwaith strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer yr iaith Gymraeg mewn iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gofal sicrhau eu bod yn cynnig gofal a chymorth yn weithredol trwy gyfrwng y Gymraeg i'r un safon â'r hyn a ddarperir yn Saesneg.

Ei nod yw:

- sicrhau bod anghenion ieithyddol siaradwyr Cymraeg yn cael eu bodloni
- darparu gofal a chymorth yn Gymraeg i'r rhai sydd eu hangen
- dangos bod iaith yn chwarae rhan bwysig o ran ansawdd gofal a chymorth, ac nad yw'n cael ei hystyried yn "ychwanegiad".

Mae hyn yn ddull rhagweithiol o ran dewis iaith ac angen iaith yng Nghymru, sy'n rhoi'r cyfrifoldeb dros sicrhau gwasanaeth Cymraeg ar ddarparwyr gwasanaethau, yn hytrach na'r bobl sy'n defnyddio gofal a chymorth.

Mae deddfwriaeth a pholisi yng Nghymru yn gwneud y canlynol yn ofynnol:

- bod gofal a chymorth trwy gyfrwng y Gymraeg o'r un safon ac yr un mor hygyrch â'r gofal a chymorth a ddarperir trwy gyfrwng y Saesneg
- bod gofal a chymorth trwy gyfrwng y Gymraeg yn eang ac yn drylwyr
- na ddylai sefydliadau dybio mai Saesneg yw'r iaith ddiofyn wrth ddarparu gofal a chymorth
- na ddylai siaradwyr Cymraeg orfod gofyn am ofal a chymorth trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae gan y rhai sy'n siarad Cymraeg a'r rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg, fel ei gilydd, ran i'w chwarae wrth ddarparu gofal a chymorth trwy gyfrwng y Gymraeg.

Gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth a chanllawiau i helpu i gefnogi defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle ar ein [gwefan](#).



Gofalwn Cymru

Mae ar Gymru angen tuag 20,000 o bobl ychwanegol yn gweithio mewn gofal erbyn 2030 os yw am gadw i fyny â'r galw cynyddol am ofal a chymorth. Ym mis Mawrth 2019, gwnaethom lansio Gofalwn Cymru, sef ymgyrch genedlaethol i helpu i ddenu mwy o bobl i weithio mewn gofal.

Mae'r ymgyrch yn canolbwyntio ar sut beth yw gweithio gydag oedolion a phlant:

Gweithio gydag oedolion

Gall gweithio gydag oedolion mewn gofal cymdeithasol fod yn heriol. Ond i'r unigolyn cywir, gall fod yn werthfawr dros ben.

Gweithiwch mewn gofal cymdeithasol i fod yn achubiaeth i'ch cymuned.

Gweithio gyda phlant

P'un a ydych eisiau arwain tîm neu weithio i chi'ch hun gartref, mae yna rôl i chi. Mae amrywiaeth o yrfaoedd ar gael yn gweithio gyda phlant.

Helpwch i ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf i gyrraedd ei llawn botensial.

Mae gan yr ymgyrch ei gwefan ei hun, gofalwn.cymru, sy'n amlygu'r cyfleoedd amryfal i weithio gydag oedolion a phlant, ac mae'n rhoi cyfle i bobl glywed sut beth yw gweithio mewn gofal gan y rhain sydd eisoes yn gwneud y gwaith hwnnw. Mae hefyd yn cynnwys rhestr gynyddol o ddarparwyr gofal sydd â swyddi yr hoffent eu llenwi.

Ewch i wefan Gofalwn Cymru i gael mwy o wybodaeth am yr ymgyrch. Hefyd, gallwch gofrestru'n rhad ac am ddim fel cyflogwr sy'n chwilio am staff: www.gofalwn.cymru



Gofalwn
.cymru

WeCare
.wales

Dolenni defnyddiol

Os hoffech i ni ymweld â'ch sefydliad i drafod cofrestru, anfonwch neges e-bost at y tîm trwy ymholiadau@gofalcymdeithasol.cymru

Gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth am ein gwaith ar ein gwefan yn gofalcymdeithasol.cymru. Yn adran adnoddau ein gwefan, gallwch weld ystod o gyhoeddiadau, clipiau fideo a dolenni ar-lein. Gallwch chwilio am allweddair hefyd, neu ddewis categori, a phori: gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau

Dyma ddolenni i rai enghreifftiau o'n cyhoeddiadau defnyddiol:

[Côd Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol – adnoddau](#)

[Cofrestru gweithwyr gofal cartref](#)

[GCCarlein](#)

[Adroddiadau data cofrestru cyfoes](#)

[Y Rhaglen Gadarnhau ar gyfer Gweithwyr Cymdeithasol Newydd Gymhwyso](#)

[Fframwaith Dysgu ac Addysg Proffesiynol Parhaus \(DAPP\) ar gyfer Gweithwyr Cymdeithasol](#)

[Dysgu a datblygu](#)

[Man Dysgu](#)

[Rheolau addasrwydd i ymarfer](#)

[Rheolau Cofrestru](#)

Canllawiau esboniadol:

[Dyletswydd gonestrwydd](#)

[Adrodd gorfodol ar anffurfio organau cenhedlu benywod](#)

Canllawiau ymarfer:

- [Y gweithiwr cymdeithasol: canllawiau ymarfer ar gyfer gweithwyr cymdeithasol sydd wedi cofrestru gyda ni](#)
- [Y rheolwr gofal cymdeithasol: canllawiau ymarfer ar gyfer rheolwyr gofal cymdeithasol sydd wedi cofrestru gyda ni](#)
- [Y gweithiwr gofal preswyl i blant: canllawiau ymarfer ar gyfer gweithwyr gofal preswyl i blant sydd wedi cofrestru gyda ni](#)
- [Y gweithiwr gofal cartref: canllawiau ymarfer i weithwyr gofal cartref sydd wedi'u cofrestru â ni](#)

[Hanfodion cofrestru – canllaw i unigolion cofrestredig](#)


Mae gennym sianel [YouTube](#) lle gallwch wyliau ein fideos.

Rydym ar [Twitter](#) a [Facebook](#).



Ein tîm

I ddangos mwy i chi am ein tîm, rydym wedi creu'r fideo isod ar gyfarfod â'r tîm cofrestru:



Os hoffech gysylltu â'r tîm, gallwch:

anfon neges e-bost at y tîm cofrestru yn ymholiadau@gofalcymdeithasol.cymru neu'r tîm addasrwydd i ymarfer yn aiy@gofalcymdeithasol.cymru neu gallwch siarad â ni rhwng 9am a 5pm o ddydd Llun i ddydd Gwener.

Llinell gymorth cofrestru: 029 2078 0646

Addasrwydd i ymarfer: 029 2078 0648